



## **Cyngor Sir y Fflint Rhaglen Cynllun Chwarae'r Haf Sir y Fflint, 2020**

Mewn partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned Lleol,

Urdd Gobaith Cymru a Llywodraeth Cymru.

Wedi'i lleoli yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug gan weithio ar draws trefi a phentrefi yn Sir y Fflint

### **Goruchwyliwr Cynllun Chwarae x 4**

**Cyflog - G02 scp 5 £18,795 y flwyddyn - £9.74 yr awr.**

35 awr yr wythnos, dros dro o 6 Gorffennaf tan 28 Awst 2020

Ni chaniateir gwyliau yn ystod cyfnod y lleoliad

Cyflogir ein Goruchwylwyr Ardal i reoli ac annog timoedd o Aelodau Tîm Chwarae Cymunedol i ddarparu sesiynau chwarae anffurfiol mewn trefi a phentrefi ar draws Sir y Fflint i ddarparu rhaglen cynllun chwarae'r haf i'r sir, ar gyfer pob plentyn rhwng 5 a 12 oed. Mae swydd y Goruchwyliwr Ardal yn hanfodol i lwyddiant darparu'r rhaglen cynllun chwarae. Mae Goruchwylwyr Ardal yn gyfrifol am gyfathrebu rhwng plant, rhieni, y Tîm Datblygu Chwarae a sefydliadau partner, gan sicrhau bod y cynllun yn rhedeg yn esmwyth. Mae angen brwdfrydedd ac egni diderfyn yn y swydd heriol hon. Mae'r gallu i weithio ar liwt eich hun, i feddwl ar eich traed a datrys problemau yn ddigymell yn hanfodol.

Bydd y Goruchwylwyr Ardal hefyd yn gyfrifol am oruchwylio cynllun 'Rhannwch eich Cinio' Sir y Fflint mewn 50% o'r safleoedd cynllun chwarae.

Rhaid i ymgeiswyr fod yn 18 oed neu'n hŷn

**Gan y bydd y swydd hon yn arwain at gael cysylltiad sylweddol gyda phlant a/neu oedolion diamddiffyn bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn destun gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.**

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 27 Mawrth 2020.**

**Cynhelir cyfweiliadau ar6 a 7 Ebrill, 2020**

Am drafodaeth anffurfiol cysylltwch â:

**Janet A Roberts, Swyddog Datblygu Chwarae Sir y Fflint**  
**Rhif Ffôn 01352 704155**

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn sgil bwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac mae wedi ymrwymo i gynyddu nifer y gweithwyr dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan ymgeiswyr sydd yn gallu gweithio yn Gymraeg a Saesneg. Byddwn hefyd yn cefnogi gweithwyr newydd a rhai sydd eisoes yn gweithio gyda ni sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella/datblygu eu sgiliau Cymraeg.